# Cyllidebu ar Sail Rhywedd ar Waith

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Tachwedd 2025

## Dysgu o Gynlluniau Peilot yng Nghymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53377, ISBN digidol 978-1-80633-635-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys


Rhagair 2

Cyflwyniad 3

Beth yw Cyllidebu ar Sail Rhywedd? 4

Canfyddiadau'r Cynlluniau Peilot 5

Y Warant i Bobl Ifanc 5

Cyfrifon Dysgu Personol 6

Canfyddiadau Trawsbynciol 7

Argymhellion Polisi 7

Beth Fydd yn Digwydd Nesaf? 8


# Rhagair



**Dylai'r penderfyniadau y byddwn yn eu gwneud fel llywodraeth ynglŷn â sut i ddyrannu adnoddau, cynllunio gwasanaethau a ffurfio polisïau fod wedi'u gwreiddio mewn tegwch. Ers inni gyhoeddi Gwneud nid Dweud yn 2019, rydym wedi gweithio i ddatblygu ein huchelgais i wireddu cydraddoldeb rhywedd yng Nghymru. Mae cyllidebu ar sail rhywedd yn adnodd pwysig.**

Nid yw cyllidebu ar sail rhywedd yn golygu cael cyllidebau ar wahân ar gyfer pob rhywedd. Mae'n golygu bod gwariant cyhoeddus yn cefnogi ein nodau tegwch. Mae'n golygu deall sut y mae ein penderfyniadau gwariant yn effeithio ar bobl a defnyddio'r wybodaeth honno i wella'r canlyniadau i bawb.

Rhwng 2019 a 2023, cafodd gwahanol ddulliau o fynd ati i ddefnyddio cyllidebu ar sail rhywedd yn ein gwaith o ddydd i ddydd eu treialu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynlluniau peilot hyn – ar draws sgiliau, cyflogaeth a theithio llesol – wedi meithrin dealltwriaeth werthfawr o sut y gallwn sicrhau bod dadansoddi ar sail rhywedd yn dod rhan annatod a chanolog o'n prosesau cyllidebol a pholisi.

Mae'r canlyniadau yn gam sylweddol ymlaen ar ein taith tuag at gymdeithas decach a mwy cyfartal. Maen nhw hefyd yn cynnig inni adnoddau newydd y gallwn eu defnyddio i helpu i sicrhau bod gwariant cyhoeddus yn adlewyrchu anghenion amrywiol ein cymunedau ac yn cyfrannu at gymdeithas fwy cyfartal.

Fodd bynnag, mae rhagor o waith i'w wneud eto. Yr her sy'n ein hwynebu ni nawr yw sicrhau bod yr egwyddorion yn cael eu sefydlu ar draws Llywodraeth Cymru gyfan, i lywio gwaith Adolygiad Gwariant Cymru a chylchoedd y gyllideb yn y dyfodol.

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi canlyniadau'r cynlluniau peilot hyn ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2026-27, gan nodi'r camau nesaf y byddwn yn eu cymryd i sicrhau bod yr arfer o ddefnyddio cyllidebu ar sail rhywedd yn cael ei sefydlu ar draws Llywodraeth Cymru.

**Mark Drakeford AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

# Cyflwyniad

**Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwerthusiad o dri chynllun peilot cyllidebu ar sail rhywedd penodol a gafodd eu cynnal gan Lywodraeth Cymru rhwng 2019 a 2023.**

Diben y cynlluniau peilot hyn oedd gwella ein dealltwriaeth o sut y gallai cyllidebu ar sail rhywedd ein helpu i gyflawni canlyniadau gwell i bobl Cymru. Roeddem am dreialu dulliau o roi cyllidebu ar sail rhywedd ar waith ar draws amrediad o wahanol feysydd polisi – meysydd a gafodd eu dewis gan ddefnyddio'r meini prawf eang isod:

- Cynnal cynlluniau peilot mewn meysydd polisi lle y gall fod rhagfarn hysbys ar sail rhywedd eisoes yn ogystal ag mewn polisïau lle nad yw'n ymddangos bod unrhyw ragfarn.
- Cynnal cynlluniau peilot ar draws gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru.
- Cynnal cynlluniau peilot mewn polisïau presennol ac mewn polisïau mwy newydd yn ogystal, os yn ymarferol bosibl.

Cafodd y cynlluniau peilot eu dewis i adlewyrchu amrediad o feysydd polisi, modelau cyflawni a chamau datblygu. Nid oeddent wedi'u cynllunio i fod yn berffaith, ond, yn hytrach, i dreialu a dysgu, ac i lywio'r ymarfer yn y dyfodol.

Gan ddefnyddio'r meini prawf hyn, rhoddwyd pwyslais ar dri maes yn benodol – sgiliau, cyflogaeth a theithio llesol – a nodwyd prosiectau lle y gallai cyllidebu ar sail rhywedd gael ei ymgorffori mewn gwaith datblygu polisi oedd eisoes ar y gweill.

Mae Cyfrifon Dysgu Personol yn rhoi cymorth i bobl gyflogedig sy'n ennill llai na'r cyflog cyfartalog i feithrin sgiliau lefel uwch, gan eu helpu i fanteisio ar amrywiaeth ehangach o gyfleoedd gwaith. Mae'r cyllid wedi'i dargedu'n benodol at brinder llafur a bylchau mewn sgiliau mewn sectorau â blaenoriaeth fel iechyd a gofal cymdeithasol, logisteg, adeiladu gwyrdd ac ynni adnewyddadwy. Un o amcanion allweddol y cynllun peilot cyllidebu ar sail rhywedd oedd helpu pobl i ddatblygu sgiliau mewn meysydd nad ydynt yn nodweddiadol o'u rhywedd.

Mae'r Warant i Bobl Ifanc yn rhoi'r  cynnig o gymorth sy'n gysylltiedig â gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i bawb sy'n 16-24 oed. Roedd y dull cyllidebu ar sail rhywedd fel rhan o'r gwaith hwn yn cydnabod y rhwystrau cymhleth y gall rhai pobl eu hwynebu wrth gael gafael ar gymorth a bydd yn helpu Llywodraeth Cymru i dargedu cyllid yn well a rhoi mesurau lliniaru yn erbyn effeithiau nas bwriadwyd ar waith.

Mae teithio llesol yn rhan allweddol o weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth Cymru. Roedd pwyslais penodol y cynllun peilot cyllidebu ar sail rhywedd hwn ar raglen E-Symud Cymru, a oedd yn gweithredu cynlluniau llogi a benthyg e-feiciau cost isel yn y gymuned mewn pum ardal yng Nghymru – y mwyafrif ohonynt â lefelau uchel o amddifadedd. Gweithiodd Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â Sustrans Cymru, a oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r cynllun, i ddeall yn well sut y gallai dull cyllidebu ar sail rhywedd ychwanegu gwerth a llywio'r ffordd o gyflwyno'r cynllun yn y dyfodol.


# Beth yw Cyllidebu Ar Sail Rhywedd?

Mae cyllidebu ar sail rhywedd yn golygu cymhwyso dadansoddiad ar sail rhywedd i’r ffordd y mae llywodraethau yn codi arian ac yn ei wario. Mae’n ffordd o adolygu’n feirniadol sut y mae penderfyniadau gwariant yn effeithio ar gyfleoedd economaidd a chymdeithasol menywod a dynion, a’r nod yw ailstrwythuro penderfyniadau gwariant er mwyn cael gwared ar ganlyniadau anghyfartal. Mae’n golygu mynd ati i nodi effeithiau gwariant ar gydraddoldeb rhywedd.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu, wrth ddatblygu polisïau, fod rhaid inni feddwl am yr effeithiau tebygol (a fwriadwyd neu nas fwriadwyd) y byddai gwahanol benderfyniadau yn eu cael ar rywedd, gan gynnwys dilyn dull croestoriadol. Wedi hynny, gallwn ddefnyddio’r wybodaeth hon i wneud penderfyniadau gwell, gwybodus. Yn ei hanfod, cynnwys dadansoddiad ar sail rhywedd yn y penderfyniadau y byddwn yn eu gwneud am sut i ddefnyddio arian i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yw cyllidebu ar sail rhywedd.

Drwy gyllidebu ar sail rhywedd, gellir cyflawni’r canlynol:

- defnyddio arian cyhoeddus mewn ffordd decach, drwy wariant wedi’i dargedu
- datblygu polisïau yn well, a dyrannu adnoddau yn well, i ddiwallu anghenion amrywiol y boblogaeth
- sicrhau mwy o dryloywder gan olygu y bydd yn haws gweld pwy sy’n elwa ar wariant cyhoeddus, a helpu i fynd i’r afael â’r bylchau
- symud tuag at lunio polisïau a chyllidebu ar sail canlyniadau ar draws y gwasanaethau cyhoeddus.



# Canfyddiadau'r Cynlluniau Peilot

## Teithio Llesol – E-Symud

**Cynllun benthyg e-feiciau ac e-feiciau cargo oedd ar waith mewn sawl tref yng Nghymru oedd E-Symud, wedi'i reoli gan Sustrans. Cafodd cyllidebu ar sail rhywedd ei gyflwyno ar ôl y dyfarniad grant cychwynnol, i sicrhau mwy o gydraddoldeb rhywedd ymhlith y rhai oedd yn elwa ar y cynllun.**

### Camau gweithredu allweddol

Cafodd amcanion cyllidebu ar sail rhywedd eu sefydlu yn rhan annatod o gyflwyno'r cynllun yn ystod y cyfnod peilot. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i dargedu, dadansoddi demograffeg a chynllunio gwaddol ar gyfer trosglwyddo asedau ag amodau tegwch rhywedd.

### Y canfyddiadau

- Roedd y rhwystrau i fenywod yn cynnwys diffyg cyfleusterau storio diogel, pwysau'r beiciau a'r angen i gludo plant a bagiau.
- I fynd i'r afael â hyn, cafodd deunyddiau hyrwyddo'r cynllun a'r beiciau a gynigiwyd eu haddasu mewn ymateb i adborth gan fenywod. O ganlyniad, dros dair blynedd, roedd 48% o'r defnyddwyr yn fenywod.
- Gwnaeth y trefniadau casglu data wella drwy gydol y cynllun peilot, a chafodd fframwaith cyllidebu ar sail rhywedd ei ddatblygu ar gyfer dibenion ymgysylltu, hygyrchedd a monitro.
- Cafodd staff a phartneriaid cymunedol hyfforddiant ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a chafodd pecyn cymorth ei gyd-lunio.

### Yr heriau

Roedd cyllidebu ar sail rhywedd yn cael ei weld i ddechrau fel ystyriaeth 'ychwanegol' ac yn faich arall ar y rheini oedd yn cyflwyno'r prosiect. O ganlyniad, roedd diffyg integreiddio cynnar. Fodd bynnag, dangosai ffigurau terfynol y defnyddwyr bod niferoedd cydradd wedi'u cyflawni fwy neu lai o ran rhywedd, er bod dynion, yn genedlaethol, dair gwaith yn fwy tebygol o feicio na menywod.

## Y Warant i Bobl Ifanc

**Nod y Warant i Bobl Ifanc yw darparu cymorth i bob unigolyn dan 25 oed yng Nghymru i gael lle mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Cafodd cyllidebu ar sail rhywedd ei dreialu o 2022-23, a chafodd bwrdd rhaglen ei sefydlu i oruchwylio'r broses o integreiddio.**

### Camau gweithredu allweddol

Cafodd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb eu gwella i ystyried croestoriadedd. Darparwyd cyllid i greu data cyfoethocach i gefnogi penderfyniadau. Lansiwyd cynllun peilot o'r Boblogaeth Carcharorion sy'n Fenywod i gael gwybod am brofiadau unigryw o'r ddarpariaeth cymorth sgiliau a chyflogadwyedd. Arweiniodd y cynllun peilot at amrediad o dystiolaeth i'w defnyddio i lywio'r ffordd y bydd rhaglenni cyflogadwyedd yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol.

### Y canfyddiadau

- Nid yw croestoriadedd neu ddadansoddiad gwrywod/benywod yn cael eu hystyried yn aml wrth gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
- Mae sefydlu cyllidebu ar sail rhywedd yn rhan o'r broses yn her pan fydd rhaglenni blaenllaw yn cael eu cyflwyno gan amrediad eang o bartneriaid.
- Cafodd trefniadau casglu data eu gwella ac mae'r gwelliannau hynny yn parhau, ond mae dadansoddi croestoriadol yn gyfyngedig o hyd.
- Mae'n her i gynnal cydbwysedd rhwng defnyddio dull newydd, anghyfarwydd a chyflwyno rhaglenni yn gyflym.

### Yr heriau

Cynnal momentwm, sicrhau bod cyllidebu ar sail rhywedd yn llywio prosesau'r gyllideb, a chynnal cydbwysedd rhwng yr angen i gyflwyno'n gyflym a datblygu sylfaen dystiolaeth sy'n ystyriol o rywedd.

## Cyfrifon Dysgu Personol

**Mae Cyfrifon Dysgu Personol yn darparu cyfleoedd uwchsgilio i bobl gyflogedig, ac mae'r rhaniad rhywedd yn gymharol gyfartal ymhlith y cyfranogwyr. Cafodd cyllidebu ar sail rhywedd ei gyflwyno ar ôl i'r rhaglen gael ei lansio.**

### Camau gweithredu allweddol

Canolbwyntio ar yr agweddau rhyweddol ar fynediad at gyrsiau a chanlyniadau Addysg Bellach. Cafodd canllawiau a phrosesau rheoli contractau eu diweddaru i roi pwyslais ar gyllidebu ar sail rhywedd. Cafodd cyfarfodydd chwarterol a sesiynau diweddaru eu cynnal gyda cholegau a phartneriaid. Cafodd cymorth wedi'i deilwra ei ddatblygu i fynd i'r afael â hyder myfyrwyr sy'n fenywod wrth gyfranogi mewn pynciau sydd wedi bod yn rhai i ddynion yn bennaf yn y gorffennol.

### Y canfyddiadau

- Nid yw arferion cyllidebu ar sail rhywedd wedi'u sefydlu'n llawn hyd yma – mae'r ddealltwriaeth a'r ymarfer yn amrywio ar draws y partneriaid cyflenwi.
- Mae data monitro yn dangos rhywfaint o gynnydd o ran herio stereoteipiau rhywedd a newid lefelau cyfranogiad (ee rhagor o fenywod yn cyfranogi mewn adeiladu a TGCh).
- Mae diffyg eglurder ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng dull cynhwysol o ymgysylltu â myfyrwyr a chyllidebu ar sail rhywedd – mae angen cymorth a hyfforddiant pellach.

### Yr heriau

Trosiant staff, cynnal y pwyslais a rheoli'r disgwyliadau o ran gallu'r rhaglen i fynd i'r afael ag anghydbwysedd rhywedd mewn sectorau.

# Canfyddiadau Trawsbynciol

Ar draws y tri chynllun peilot, daeth y chwe thema ganlynol i'r amlwg:

### Mae amseru yn bwysig

Rhaid i gyllidebu ar sail rhywedd gael ei sefydlu'n rhan o'r broses o'r cychwyn cyntaf – ni ddylid ei ôl-osod yn rhan o'r broses. Yn yr achosion hyn, cafodd cyllidebu ar sail rhywedd ei gyflwyno'n aml ar ôl y cam cynllunio rhaglen, gan gyfyngu ar ei effaith ac ar y gefnogaeth.

### Mae data yn hanfodol

Mae data wedi'u dadgyfuno a chroestoriadol yn hanfodol ond nid ydynt yn ddigonol yn aml. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella trefniadau casglu data, ond mae dadansoddi cyson, croestoriadol, y gellir gweithredu arno, yn parhau i fod yn y camau datblygu.

### Mae angen cefnogaeth o ran capasiti a dealltwriaeth

Mae angen rhagor o ganllawiau, hyfforddiant ac enghreifftiau ymarferol ar bartneriaid cyflenwi a staff er mwyn sefydlu arferion cyllidebu ar sail rhywedd.

### Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn hanfodol

Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol a rhannu dysgu ond gellid cryfhau hyn ymhellach.

### Mae'n rhaid ystyried cynaliadwyedd

Mae angen cynnal y pwyslais yn barhaus er mwyn sefydlu cyllidebu ar sail rhywedd, yn enwedig drwy gyfnodau o newid mewn staff a phontio rhwng rhaglenni.

### Mae newid diwylliant yn cymryd amser

Mae angen ymdrech barhaus ac ewyllys wleidyddol er mwyn sefydlu cyllidebu ar sail rhywedd.

# Argymhellion Polisi

## Prif ffrydio cyllidebu ar sail rhywedd o'r cychwyn cyntaf

- Dylai ein dull gael ei ddatblygu yn y dyfodol gan roi pwyslais ar sut i integreiddio Cyllidebu ar Sail Rhywedd yn y camau cyntaf o gynllunio rhaglen neu adolygu polisi, nid ei ystyried fel mater ychwanegol yn ôl-weithredol.
- Dylai rhaglenni newydd i dreialu ein dull ymhellach gynnwys amcanion, fframweithiau a monitro cyllidebu ar sail rhywedd o'r cychwyn cyntaf.

## Meithrin capasiti a darparu adnoddau ymarferol

- Datblygu a rhannu pecynnau cymorth ymarferol, astudiaethau achos, a hyfforddiant i bartneriaid cyflenwi, gan dynnu ar yr arferion gorau yng Nghymru ac yn rhyngwladol (ee y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sefydliad Menywod y CU).
- Cynnull sesiynau dysgu a chymunedau ymarfer yn rheolaidd i rannu'r heriau a'r datrysiadau.

## Cryfhau trefniadau casglu data a dadansoddi croestoriadol

- Ymdrechu i gasglu a dadansoddi data wedi'u dadgyfuno (yn ôl rhywedd, ethnigrwydd, anabledd, etc) ac argymell dadansoddi croestoriadol wrth fonitro a gwerthuso bob amser.
- Gweithio tuag at sefydlu systemau a chapasiti i gefnogi dadansoddi data cadarn a dolenni adborth i mewn i ddatblygu polisi.

### Sefydlu cyllidebu ar sail rhywedd ym mhrosesau'r gyllideb

- Sicrhau bod canllawiau'r Trysorlys yn hyrwyddo ystyriaethau cyllidebu ar sail rhywedd ac asesiadau effaith croestoriadol.
- Ystyried ymhellach sut i gysylltu penderfyniadau cyllid a rheoli contractau â chynnydd y gellir ei ddangos ar gyllidebu ar sail rhywedd.

### Meithrin trefniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid a thryloywder

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid (gan gynnwys partneriaid cyflenwi a grwpiau eiriolaeth) wrth gynllunio, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni.
- Rhannu'r dysgu, y canlyniadau a'r arferion gorau o gynlluniau peilot pellach yn gyhoeddus i adeiladu momentwm ac atebolrwydd.

### Dysgu o'r arferion gorau yn rhyngwladol

- Parhau i ddysgu oddi wrth arweinwyr rhyngwladol ym maes cyllidebu ar sail rhywedd (ee Gwlad yr Iâ, Canada, Awstria).
- Cymryd rhan mewn rhwydweithiau rhyngwladol a chynnwys tystiolaeth fyd-eang mewn polisïau ac ymarfer.

# Beth Fydd yn Digwydd Nesaf?

**Mae'r cynlluniau peilot wedi gosod y sylfeini ar gyfer dull mwy systematig o fynd ati i gyllidebu ar sail rhywedd yng Nghymru.**

Ni fyddwn yn cynnal rhagor o gynlluniau peilot ar hyn o bryd. Yn hytrach, rydym am roi pwyslais ar gadarnhau'r dysgu, meithrin capasiti a sefydlu cyllidebu ar sail rhywedd yn rhan o wead y llywodraeth. Rydym yn cofnodi'r gwaith da sy'n cael ei wneud ledled Cymru ac yn ei rannu â phartneriaid yn y sector cyhoeddus.

Mae Grŵp Cyllideb Menywod Cymru wedi bod yn bartner hanfodol yn y gwaith hwn, gan ddarparu hyfforddiant, her a dealltwriaeth bellach. Bydd eu cefnogaeth barhaus, ynghyd â chefnogaeth ein Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, yn allweddol wrth inni symud ymlaen.

Nid yw cyllidebu ar sail rhywedd yn datrys pob problem. Ond mae'n adnodd pwerus – un sy'n ein helpu i ofyn cwestiynau gwell, gwneud penderfyniadau gwell, a chyflawni canlyniadau gwell. Mae'r cynlluniau peilot hyn wedi dangos beth sy'n bosibl pan fyddwn yn cymryd cydraddoldeb o ddifrif – drwy ein geiriau ond hefyd drwy'r ffordd y byddwn yn gweithredu.

Wrth inni edrych tua'r dyfodol, mae'r dasg sydd o'n blaenau yn glir. Rhaid inni adeiladu ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu, sefydlu cyllidebu ar sail rhywedd yn rhan annatod o'n hymarfer ar draws y llywodraeth a sicrhau bod pob punt a wariwn yn helpu i adeiladu Cymru decach, fwy cyfartal.